Asesiad Athro

Cyfnodau Allweddol 2 a 3

# Cymraeg : proffil dysgwr

# Lefel 5

# Rhagarweiniad

Bwriad y proffil hwn yw cynorthwyo athrawon o ran y mathau o dystiolaeth y gallan nhw eu cymryd i gyfarfod clwstwr er mwyn cefnogi'r canfyddiadau cyd-fynd orau a wnaethpwyd. Mae'r proffil hefyd yn dangos bod y dystiolaeth i'w chanfod yn bennaf yn llyfr y disgybl, ac felly eisoes ar gael i'r athrawon.

Mae'r proffil hefyd yn cynnwys sylwebaeth fanwl sy'n cynnig eglurhad clir o ran pam y cafodd y lefel cyd-fynd orau ei phennu. Does dim awgrym na disgwyliad bod angen cynhyrchu proffil ar gyfer pob disgybl yn y cohort nac ychwaith yr angen i athrawon ysgrifennu sylwebaeth mor gynhwysfawr.

Dydd Mawrth y 9fed o Fedi 2014

Gwrthryfel Glyndŵr

Amcan a sgil: Ymateb i ddarn ffeithiol.

**Pam ydyn ni'n dathlu Dydd Owain Glyndŵr ar Fedi'r 16eg?**

**Pam ddigwyddodd gwrthryfel Owain Glyndŵr?**

**Pryd ddechreuodd gwrthryfel Owain Glyndŵr a phryd ddaeth e i ben?**

**Sut ddaeth y gwrthryfel i ben?**

**Beth oedd cynlluniau Owain a'i brif weinidog, Gruffudd Young, ar gyfer Cymru?**

**Beth mae'r beirdd yn credu ddigwyddodd i Owain?**

**Beth yw ystyr y frawddeg 'Ond erbyn 1406 roedd fflam y gwrthryfel yn oeri'?**

**Pam fod Owain Glyndŵr yn cael ei gofio fel ffigwr pwysig yn hanes Cymru hyd heddiw?**

1. Rydym ni yn dathlu dydd Owain Glyndŵr ar ~~yr 16~~ Fed yr 16eg oherwydd dyna'r diwrnod y dewiswyd Owain Gly yr arweinydd ar y gwrthryfel a'i goronin Dywysog Cymru.

2. Roedd y gwrthryfel wedi digwydd oherwydd yn 1400 roedd Owain Glyndŵr yn 40 oed yn briod ac yn berchen o ddwy stad gyfoethog yng Nglyndyfrdwy a Sycharth, Powys. Roedd astudio'r gyfraith ac yn filwr dewr. Pam benderfynodd e ar y Cymry mewn gwrthryfel ffyrnig – a cholli popeth.

Oes rheswm arall?

3. Dechreuodd y rhyfel yn 1400 ac ddaeth e i ben 14

7/9

4. Roedd yr gwrthryfel wedi dod i ben oherwydd llwyddo brenin Lloegr, Harri IV, i gipio'r cestyll ar tir yn ôl.

5. Z Cynlluniau Owain a Gruffudd Young ar gyfer Cymru mae nhw. Sôn am wneud Tyddewi yn brif eglwys Cymru ac am sefydlu dwy brif ysgol yn y wla un yn ne Cymru ar llall yn y gogledd.

6. Maer beirdd yn credu bod Owain ddim wedi marw o gwbl. Roedden nhw'n dwend roedd en cysgu mewn ogof n bydd en deffro un dydd ac arwain Cymru ...

gwrthryfel arall.

7. Ystyr y frawddeg 'roedd y fflam y gwrthryfel yn oer yw mae'n rhyfel yn dechrau dod i ben

8 Mae Owain Glyndŵr yn cael ei gofio oherwydd mae'n arwr Cymru

# Gwrthryfel Owain Glyndŵr

Ar Fedi 16 bob blwyddyn, mae Cymru'n dathlu Dydd Owain Glyndŵr. Dyma'r dyddiad y digwyddodd gwrthryfel pwysig yng Nghymru ym 1400. Dyma'r diwrnod y dewiswyd Owain Glyndŵr yn arweinydd ar y gwrthryfel a'i goroni'n Dywysog Cymru. Tref Rhuthun oedd targed cyntaf y gwrthryfel gan fod gelyn Glyndŵr, Reginald de Grey, yn arglwydd yno. Llosgwyd y dref i'r llawr.

Yna bu tawelwch tan Ebrill 1, 1401, pan lwyddodd dau gefnder Owain, Rhys a Gwilym Tudur o Fôn, i gipio Castell Conwy oddi wrth y Saeson. Roedd fflam y gwrthryfel wedi tanio eto! O 1401 tan 1406 bu'r ddwy ochr yn llosgi a dinistrio'n ffyrnig ar hyd a lled Cymru. Ar un adeg roedd 30,000 o filwyr ym myddin Owain ac ef oedd yn rheoli pob rhan o Gymru heblaw am dde Penfro a Gŵyr. Anfonodd brenin Ffrainc filwyr i'w helpu ac mewn senedd ym Machynlleth, Powys, ym 1404, cafodd Owain ei goroni'n Dywysog Cymru o flaen cenhadon o'r Alban, Sbaen a Ffrainc.

Ond erbyn 1406 roedd fflam y gwrthryfel yn oeri. Llwyddodd brenin Lloegr, Harri IV, i gipio'r cestyll a'r tir yn ôl. Chafodd Owain Glyndŵr mo'i ddal, ei garcharu na'i fradychu – ond rywbryd tua 1410, diflannodd. Roedd gwrthryfel cenedlaethol mawr olaf y Cymry wedi dod i ben.

**Pam? Pam? Pam?**

Ym 1400 roedd Owain Glyndŵr yn 40 oed, yn briod ac yn berchen ar ddwy stad gyfoethog yng Nglyndyfrdwy a Sycharth, Powys. Roedd wedi astudio'r gyfraith ac yn filwr dewr. Pam benderfynodd e arwain y Cymry mewn gwrthryfel ffyrnig – a cholli popeth?

- Ers marw'r tywysog Llywelyn ein Llyw Olaf ym 1282 roedd y Cymry wedi bod yn chwilio am arweinydd ac arwr newydd i godi yn erbyn brenin Lloegr. Owain Glyndŵr oedd yr arweinydd delfrydol.
- Roedd llawer o'r Cymry yn credu eu bod nhw'n cael amser caled a chreulon o dan y Saeson, yn enwedig yn y bwrdeisdrefi ac yn yr eglwys.
- Roedd y Pla Du ym 1349 wedi lladd dros hanner y Cymry ac roedd pobl yn ofnus ac yn ansicr. Roedd y wlad yn barod i godi mewn gwrthryfel.
- Ac roedd Owain ei hun wedi cael llond bol ar ei gymydog o Sais – Reginald de Grey, Arglwydd Rhuthun, a oedd yn dwyn ei dir.



Sêl Owain Glyndŵr

Yn ôl rhai, dewin oedd Glyndŵr! Roedd tywydd ofnadwy Cymru yn ymladd ar ochr Owain yn erbyn brenin Lloegr, medden nhw. Ac roedd ganddo'i ddewin personol ei hun, Crach Ffinnant, i'w helpu.

Roedd gan Owain a'i brif weinidog, Gruffudd Young, gynlluniau gwych ar gyfer Cymru. Mewn llythyr ym 1406 o Bennal, Powys, at y Pab yn Avignon, mae'n sôn am wneud Tyddewi yn brif eglwys Cymru ac am sefydlu dwy brifysgol yn y wlad – un yn ne Cymru a'r llall yn y gogledd.

Senedd-dŷ Owain Glyndŵr ym Machynlleth



Does neb yn siŵr pryd y bu Glyndŵr farw na ble mae wedi ei gladdu. Ond yn ôl y beirdd, dydy e ddim wedi marw o gwbl. Cysgu mewn ogof mae e. Bydd yn deffro rhyw ddydd ac yn arwain Cymru mewn

Ticiwch y golofn cywir.

| | Cywir | Anghywi |
|---|---|---|
| Cafodd Karl Jenkins ei eni ym Mhenclawdd. | ✓ | |
| Mae Penclawdd yng Nghymru | ✓ | |
| Roedd ei dad yn löwr. | | ✓ |
| Mae 'Adiemus' yn ddarn corawl. | ✓ | |
| Mae Karl Jenkins wedi gweithio gyda'r gantores Bonnie Taylor. | ✓ | |
| Derbyniodd ei OBE yn 1995. | | ✓ |
| Mae Karl Jenkins wedi gweithio gyda'r Grwp pop 'McBusted'. | | ✓ |
| Dydi e ddim wedi cyrraedd y rhestr 10 cyfansoddwyr Prydeinig uchaf. | ✓ | |
| Cyfansoddwyd darn ar gyfer y Bale Brenhinol. | ✓ | |



# Karl Jenkins

Mae Karl Jenkins yn un o'r cyfansoddwyr mwyaf poblogaidd ym Mhrydian.

Cafodd Karl Jenkins ei eni yn 1944 ac fe'i magwyd ym Mhenclawdd, De Orllewin Cymru . Roedd ei dad yn athro ysgol, organydd a chôr feistr , a fu'n dysgu theori cerddoriaeth i Karl a'r piano. Tra yn Ysgol Ramadeg Tre-gŵyr, chwaraeodd Karl yr Obo yn Gerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru, cyn astudio cerddoriaeth ym Mhrifysgol Cymru, Caerdydd . Aeth ymlaen i astudio yn yr Academi Gerdd Frenhinol yn Llundain.

Mae'n yn fwyaf adnabyddus heddiw ar gyfer y prosiect 'Adiemus'. Yn 1994 rhyddhawyd albwm 'Adiemus: Songs Of Sanctuary', a ddisgrifiwyd gan Jenkins fel " Gwaith corawl - math estynedig yn seiliedig ar y traddodiad clasurol Ewropeaidd, ond lle mae'r sain leisiol yn debycach i gerddoriaeth 'ethnig' neu 'byd' ".

Roedd Adiemus yn croesi cerddoriaeth clasurol ac roedd ar frig siartiau cerddoriaeth o gwmpas y byd ac wedi cael ei arwain gan y cyfansoddwr yn Japan , yr Almaen , Sbaen , y Ffindir Iseldiroedd a Gwlad Belg , yn ogystal ag yn y Royal Albert Hall yn Llundain a Gorsaf Bŵer Battersea. Mae yna hefyd gyfres pellach o gerddoriaeth dan y teitl Adiemus.

Mae Karl Jenkins hefyd wedi cyfansoddi ar gyfer y Bale Brenhinol, Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru, Lesley Garrett a Bryn Terfel ymhlith eraill. Mae hefyd wedi sgorio a cyhoeddi albwm o glasuron roc gan Bonnie Tyler, a chynhyrchu cerddoriaeth gan Catrin Finch ar gyfer Sony Classical.

Mae cerddoriaeth Karl yn ymddangos yn rheolaidd yn y Classic FM Hall of Fame. Yn 2009 roedd yn rhif un ar y rhestr 10 cyfansoddwyr Prydeinig, mae yn 9fed ar y cyd yn y rhestr 10 cyfansoddwyr Prydeinig uchaf, yr unig cyfansoddwr byw i ymddangos yn y 10 uchaf .

Yn y blynyddoedd diwethaf mae Jenkins wedi cael llu o wobrau, gan gynnwys cael ei wneud yn gymrawd a cyswllt o'r Academi Gerdd Frenhinol, ac yn gymrawd o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Yn 2005 dyfarnwyd iddo OBE am ei wasanaeth i gerddoriaeth Brydeinig ac yn 2010 derbyniodd y CBE.

Dydd Gwener y 12fed o Fedi 2014.

Branwen

Amcan: ail-ysgrifennu chwedl 'Branwen'.
Sgil: defnyddio berfau yn gywir.

Amser maith, maith yn ôl roedd brenin o'r enw Bendigeidfran. Roedd ganddo chwaer, Branwen. Branwen roedd y ferch prydferthaf yn Harlech. H roedd ganddo dau hanner brawd ac roedden nhw yn efeilliaid. Nisien ac Efnisien oedd eu henwau. ✓

Un dydd roedd Pawb yn edrych dros y môr tuag at Iwerddon pan welon nhw tair ddeg llong yn dod tuag at Ynys y Cedyrn. Roedd p o Ynys y Cedyrn yn poeni fod y Gwyddelod eisiau rhyfel, Ond yn sydyn rhoddon nhw eu tariannau i *funny. "Mae nhw'n dod mewn heddwch" gwaeddodd Nisien. ✓✓

*GP1

Pan gyrhaeddon nhw at yr ynys roe gan Matholwch, Brenin Iwerddon gwestiwn i ofyn i Bendigeidfran. "Beth yw dy gwestiwn?" gofy Bendigeidfran wrth Matholwch "Wel," dwedodd Matho "does gen i ddim plant, felly pryd fydda i marw bydd gen i ddim plant i fy nilyn drosta fi. Felly fy nghwestiwn yw, ydw i yn gallu pri Branwen?" Meddyliodd Bendigeidfran yn galed. "W gwrs." Atebodd Bendigeidfran. Y dydd hwnw caf nhw ~~part~~ priodas fawr, OND! Roedd Bendigeidf wedi gwneud camgymeriad mawr. Doedd e ddim wedi dweud wrth Efnisien. ✓

Aeth Efnisien tu allan. Gwelodd y ceffylau ac cerddodd yn gyflym tuag atyn nhw. Cafodd Efni ei gleddyf a dechrau lladd y ceffylau. Roedd yn torri eu coesau i ffwrdd ac eu cynffonau a eu clustiau fel cosb i Matholwch. Pan glywodd Matholwch ac Bendigeidfran am hyn roedden nhw flin iawn. Roedd Bendigeidfran wedi ymddiheuro

y Mwyaf roedd on gallu ond doedd Matholwch ddim yn fodlon cymryd ddim ond ymddiheuriad. Roedd
*GP2 Bendigeidfran wedi dweud bod on mynd i* brunny mwy o chefulau ond ~~dodd~~ doedd o dal ddim yn digon i Matholwch. Wedyn cofiodd am rhywbeth arall ~~roedd~~ gan Bendigeidfran. Roedd ganddo fo grochan hud. "Beth mae e'n ei wneud?" gofynodd Mathol Roedd y crochan y dda iawn. Os oedd un neu mwy o'r milwyr yn marw bydd rhaid iddyn nhw o taflu y milwyr yn y crochan ac bydden nhw'n dod nôl allan yn gryf ac yn fyw eto ond bydden nhw ddim yn gallu siarad. "Iawn," dwedodd Matholwch ac i ffwrdd a nhw ar ~~y~~ y llong gyda Branwen.

Yn Iwerddon, cafodd Branwen bachgen bach o'r enw Gwern. Doedd pobl Iwerddon ddim yn hoffi Branwen oherwydd beth wnaeth Efnisien felly roedd hi'n gweithio fel caethferch yn y gegin. Roedd penaeth y gegin yn gas iawn iawn i Branwen. Roedd ~~ef~~ yn ei taro hi. ~~ac~~ Un dydd roedd hi'n eistedd ar y bwrdd pan ddaeth aderyn i rhoi gwmni iddi. Roedd Branwen yn hoffi yr aderyn ac roedd yr aderyn yn ffrind i hi hefyd. ~~Doedd Branwen ddim yn~~ Roedd Branwen wedi dysgu yr aderyn sut i siarad. Doedd Branwen ddim yn hoffi byw yn Iwerddon felly roedd hi wedi ysgrifennu llythyr i Bendigeidfran ac roedd e o dan adain ac dweud yr

*GP1 fyny, fyny, fyny, fyny, fyny.
o GP2 Prynu, Prynu, Prynu, Prynu, Prynu

*Defnydd ardderchog o ferfau cryno e.e. 'Pan gyrhaeddon nhw.'
* Mae'r gwaith wedi cael ei drefnu'n baragraffau.
+ Defnyddio ei/eu yn gywir.
+ Gweithio ar osod deialog yn gywir.
| ... fe wnai.

Dydd Gwener yr 19eg o Fedi 2014

Amcan a Sgil: ysgrifennu adroddiad am wahanol fathau o animeiddio.

Animeiddio Stopio ffram.

I wneud animeiddio stopio ffram maen rhaid i chi wneud pwped allan o unrhyw beth ond rhan fwyaf o'r amser mae pobl yn gwneud e allan o glai. Mae'r ffilm 'James and the Giant Peach' yn ffilm stopio ffram. Mae'r pobl oedd wedi creu 'James and the Giant Peach' ddim ond yn gallu ~~gwneud~~ cwblhau 45 eiliad yr wythnos o'r ffilm. Rhan fwyaf o'r amser, mae ffilmiau yn para 90 munud felly roedd e wedi cymryd llawer iawn o ddyddiau i wneud 'James and the Giant Peach.' Mae pob math o animeiddio yn cychwyn gyda sgript. Nesaf, mae'n rhaid meddwl am syniadau i rhoi ~~ar~~ i'r cymeriadau. Yna, pryd rydych wedi ~~gwneud~~ meddwl am syniadau. maen rhaid gwneud y cymeriadau. Bydd e'n cymryd amser hir i wneud y cymeriadau oherwydd mae angen gwneud mwy nag un. Y rheswm maen nhw'n gwneud mwy nag un yw oherwydd wedyn, rydych chi'n gallu gwneud mwy nag un golygfa ar yr un pryd. I wneud cymeriadau siarad mae angen gwneud llawer iawn o gegau. Roedd angen 250 ceg am pob cymeriad ✓✓

# Animeiddio tynnu llun.

Mae animeiddio tynnu llun yn wahanol i ~~F~~mathau arall o animeiddio. Rydych chi'n tynnu miloedd o lluniau ac mae 'na ddim ond un newid bach bach bach yn pob llun. Ynau rydych chi'n ffilmio fe yn gyflym iawn. Mae

*GP1 'Snow White' yn *engraifft o animeiddio tynnu llun. Snow White oedd ffilm disney cyntaf yn 1938. Roedd 700 o bobl wedi gweithio i wneud y ffilm 'Snow White'. Mae rhai pethau yr un peth yn animeiddio tynnu llun ac animeiddio ~~S~~stopio ffram. I wneud cerddoriaeth

*GP2 mae angen tynnu at ei *gylydd cerddorfa. Mae cerddorfa yn cael ei ddefnyddio mewn llawer iawn o ffilmiau. ✓

## Animeiddio 'C G I'

Eto yn animeiddio 'C G I' maen rhaid cael y script yn gyntaf. Yn 'C G I', rydych yn ddefnyddio'r cyfrifiadur ond yn gyntaf maen rhaid gwneud e ar papur am syniadau. Mae 'toystory' yn ffilm animeiddio. Roedd 'toystory' wedi defnyddio 110 o bobl ac wedi costio $30 miliwn i wneud. I dod i Fynnu (Fyny) gyda syniadau am y cymeriadau roedd ~~yr pont~~ pawb wedi dod a teganau nhw i mewn

GP3 ac roedden nhw'n cymyogu nhw i *Fynnu i wneud syniadau.

# Animeiddio torri allan

Yn animeiddio torri allan, does dim angen gwneud llawer iawn o un peth oherwydd ~~gyd~~ y cyfan rydych chi angen i wneud yw tynnu llun un peth ac wedyn os ydych chi eisiau symud y braich rydych chi'n symud e. Mae Charlie and Lola, Pigeon Street a tywisoges bach yn engraifft o animeiddio torri allan. Eto, maen rhaid dechrau gyda script. ✓

*GP1 enghraifft, enghraifft, enghraifft, enghraifft
*GP2 gilydd, gilydd, gilydd, gilydd, gilydd.
*GP3 fyny, fyny, fyny, fyny, fyny.

* Amrywio'r agoriadau i frawddegau.
* Rwyt wedi cynnwys llawer o ffeithiau diddorol am animeiddio.

+ Cofia gynnwys 'coma' yn dilyn agoriadau diddorol.
  e.e. 'Yna, ...'
  'Hefyd, ...'

Iawn y tro nesaf rydw i'n mynd i gynnwys coma yn dilyn agoriadau diddorol.

Dydd Gwener y 26ain o Fedi 2014

Amcan: ysgrifennu chwedl wreiddiol

Sgil: amrywio agoriadau brawddegau.

## Dirgelwch y Bala

Amser maith yn ôl, yn y Bala roedd brenhines bert iawn o'r enw Gwenllian. Roedd ganddi wallt brow sgleiniog fel y lleuad yn tywynnu yng^ghanol ~~y~~ y nôs, llygaid fel yr môr glas a gwefÿsau Mefÿs. Griffydd oedd ei thad, brenin y Bala. Hefyd roedd ganddi un brawd ac un chwaer. Enw ei chw oedd Marged ac enw ei brawd oedd Dafydd. Roe penblwydd Gwenllian mewn rhyw tair diwrnod. Bore tr dechreuodd pawb baratoi am y wledd i ddathlu 20fed pen blwydd Gwenllian. Pan orffenon nhw roedd p angen orffwys felly eisteddon nhw ar y cadeiriau edrych dros y môr. Yna gwelon nhw tua ugain llo yn dod tuag atyn nhw.

Doedd dim unrhyw un o'r Bala yn gwyb o lle roedd y cychod yn dod. Dwy awr yn ddiweddarach, cyrhaeddodd y cychod. Gofynodd Griffydd o lle roedden nhw'n dod.

"O'r Arianin," atebodd Gwion, brenin yr Arianin.

Gr1 "~~Pam~~ Pam yr ydych wedi dod yma?" gofynodd Griffy

"Oherwydd dwi am ofyn os dwi'n gallu priodi o'ch merched ac yna gawn i fabi?"

"Na chei wir!" gwaeddodd Griffydd. "Ewch nawr, cyn i cael ein cleddyfau allan!"

"Ym... iawn o'r gorau," dwedodd Gwion gan galw ei filwyr yn ôl i'r cychd. Doedd Gwion ddim yn hapus iawn am hyn.

Ar fore pen-blwydd Gwenllian, agorod ei anrhegion a chafodd ffrog bert dros ben, Secwins a diamwnds wedi ei wnio arno. Roed y ffrog yn binc i fynd gyda'i bochau. Hefyd cafodd hi esgidiau pinc ~~gla~~ gyda blodau arnyn nhw.

aragraff 1* ~~Aide~~ Roedd gan Griffydd draig o'r enw Dilwyn y ddraig.*
Ar ol i pawb gyrraedd, rhoddodd Marged ychydig ~~bach~~ o gerddoriaeth ac roedd pawb yn dawnsio, siarad, yfed a bwyta. Roedd pawb yn cael gymaint o hwyl Yn sydyn, clywodd pawb 'BANG' ac ar yr un pryd roedd y ddaear yn crynu. Sgrechiodd rhai o'r pobl yn y wledd. Clywodd pawb 'BANG' arall ac un arall ac un arall.
Yna gwelodd pawb Cawr anferthol gyda clustiau fel eliffant yn y 'sŵ'. Hefyd roedd yna tua 1,000 o filwyr y tu ôl iddo. "Beth ydych chi'n meddwl y fydych chi'n gwneud yn fan hyn?"
"Wel doeddech chi ddim wedi gadael fi i mi priodi Gwenllian felly rydym ni'n ymosod arnoch chi" gwaeddodd Gwion.
"Ewch i nol eich arfau ar unwaith yn glou!" Meddai Griffydd.
Dechreuodd rhyfel anferth yn y Bala y dydd hunw. Yng nghanol y rhyfel, roedd Gwenllian wedi mynd yn ofnus iawn. Carlamodd mewn i'r castell ~~ac~~ mewn i ystafell doedd neb yn gwybod am ond roedd hi dal yn gallu gweld popeth. Triodd Griffydd i ymosod ar y cawr yma ond roedd y cawr yn rhy gryf ac fawr ac roedd ef wedi lladd Griffydd. Doedd Dafydd ddim yn hoffi hyn felly gorweddai nesaf i Griffydd y ddau yn marw // "Paid rhoi lan dad plîs paid rhoi ffidil yn y to!" Sgrechiodd Gwenllian. Roedd Gwenllian a Marged yn crio. Doedd Gwenllian ddim yn gallu cymryd y peth ddim mwy. Rhedodd at cawell Dilwyn y Ddraig. Meddyliodd hi i wneud ef ond roedd hi angen. Agorodd y cawell ac gadael Dilwyn allan. Ymosododd Dilwyn ar y cawr a orffenodd y rhyfel. [illegible] [illegible].
Ref: BO32

* Mae'r deialog wedi cael ei osod yn well o lawer y tro yma.
* Defnydd da o wahanol fathau o agoriadau – berfau cryno, adferfau a chysyllteiriau.
+ Cofia fod angen 'coma' yn dilyn agoriadau adferol e.e. 'Ar ôl i bawb gyrraedd, ...'
'Hefyd, ...'
+ Cofia am y treigladau yn dilyn 'ei'
e.e. 'ei thad'
ac yn dilyn 'i' e.e. i bawb. Iawn fe wnai

Dydd Mercher y 15fed o Hydref 2014.

Amcan a Sgil: defnyddio'r sgil o llithr-ddarllen er mwyn canfod gwybodaeth am Langrannog.

1. Mi fyddwn ni angen am Llangrannog dillad, pethau cysgu a pethau ymolchi
2. Dydyn ni ddim yn cael cymryd radio, ffôn, fflach lamp, cyllell boced.
3. Mae losin, pop, anrhegion a nwyddau yn cael ei werthu yn y siop.
4. Rydym yn mynd i gael pedwar pryd bwyd y dydd.
5. ~~Mynd~~ Taith nôs, disgo ac diogelwr wy ywr gweithgareddau sydd yn cael ei cynnal yn y nôs.
6. Cynhelir ymarfer tân ar y noson gyntaf fel bod pob plentyn yn gyfarwydd a'r dihangeydd tân a'r mannau ymgynnull mewn argyfwng.
7. Y gweithgareddau sydd yn cael ei cynnal rhwng Ebrill a Hydref yw sgio, ceirt modur, gwibgartio, saethyddiaeth, cwrs rhaffau uchel, wal ddringo, bemau tîm heriol, cwrs rhaffau isel, taith natur, beiciau modur, cwrs antur mwdlyd.

Dyma'r weithgaredd sy'n dod i ben dros y gaeaf.

Dydd Mawrth y 11eg o Dachwedd 2014

Amcan: ysgrifennu portreadau byr o gymeriadau cartŵn

Sgil; defnyddio cyffelybiaethau campus a throsiad taclus fel agoriadau.

Donkey

Cymeriad doniol a bywiog yw Donkey. a p Belen o flew sydd ganddo ar dop ei ben. fel dwy banana mawr, mae ei glustiau yn anelu i fyny tuag at yr awyr. Corff blewog, llyfn sydd ganddo. Pryd mae rhywbeth yn drist mae'n achosi Donkey i ganu ✓

* Defnydd o gyffelybiaeth fel agoriad.
* Defnydd o drosiad fel agoriad.
+ Defnyddio cysyllteiriau er mwyn ymestyn hyd brawddegau.

Dydd Gwener y 14eg o Dachwedd.

Amcan: Asesiad: ysgrifennu portread o gymeriad cartŵn.

Sgil: Amrywio agoriadau a defnyddio gwefreiriau.

# Clumsy Smurf

Fy hoff gymeriad cartŵn yw Clumsy Smurf. Mae Clumsy Smurf yn un o'r prif cymeriadau o'r rhaglen/DVD 'Smurfs'. Ym mhentref bach yng nghanol y coedwig mae'r Smurfs yn byw. Y prif cymeriadau arall yw Papa Smurf, Smurfette a Brainy Smurf. Het wyn fel yr eira ar goeden afalau sydd gan Clumsy. Ei hoff diddordeb yw casglu cerrig ac mae'n gwneud e mwy na ki pob dydd.

~~Pryd mae~~ Pob tro mae yna cystadleuaeth o rhywbeth, dydy Clumsy ddim yn ystyried i fod yn chwaraewr dda, oherwydd mae Clumsy pob tro yn gollwng rhywbeth neu yn torri rhywbeth. Pryd dydy Smurf arall ddim eisiau bod ar dim Clumsy, mae'n wylo'n galed. Esgidiau peli golf gwyn sydd ganddo ar ~~waelod~~ waelod ei goesau. Dydy Clumsy ddim yn gyhyrog iawn. Serch hynny, mae'n gallu codi i fyny y cerrig mae'n casglu. Mae gan Clumsy trwyn banana glas, a clustiau maint 'jacuzzi' i fochdew. Ffrind gorau Clumsy yw Brainy Smurf oherwydd mae'n nhw byth a beunydd yn chwarae gyda'i gilydd.

Fel awyr glas ar diwrnod haf boeth, Mae ei groen yn disgleirio wrth gwympo dros popeth yn y pentref.

Rydw i wedi dewis Clumsy Smurf i wneud fy mhortread am oherwydd maen ddoniol ac mae o hyd yn taro mewn i pethau, ac yn gwneud pethau yn anghywir.

Hoff Ymadroddion ~~dal~~ Clumsy yw 'whoops!', 'Golly Gosh!' a 'Gee!'.

**Asesiad:** Ysgrifennu – Ysgrifennu portread o gymeriad cartŵn

| Meini Prawf Llwyddiant | | Sylwadau |
|---|---|---|
| Agoriadau amrywiol | ✔ | Defnydd da o gysylltieiriau, cyffelybiaethau a throsiadau fel agoriadau. |
| Cysylltieiriau diddorol | ✔ | 'oherwydd', 'serch hynny'. |
| Gwefreiriau | ✘ | Gwna ymdrech i gynnwys mwy o ansoddeiriau diddorol yn dy ddisgrifiadau. |
| Disgrifiadau da | ✔ | Da iawn ti am gynnwys cyffelybiaethau a throsiadau yn dy ddisgrifiad. |
| | | |
| SPPLAT | ✔ | Ond cofia am y collnodau hollbwysig! e.e. mae'r, o'r, mae'n. |
| | | |

**Sylwadau:** Da iawn Eiri! Fe fwynheais i ddarllen am 'Clumsy Smurf'!

**Y Ffordd Ymlaen:**

+ Gwna ymdrech i gynnwys mwy o wefreiriau yn dy waith ysgrifennu.
+ Cofia am y collnodau hollbwysig!
+ Hoffwn petaet yn ymdrechu i gynnwys mwy o enghreifftiau o atalnodi heriol e.e. hanner-colon.

**Sylwadau'r Disgybl:** Iawn, Byddwn yn trio gwneud hynny

Eiri

**Tasg Ddarllen – Llenyddol**

**Eira – Hefin Jones**

**Darllen a deall.**

* Pam nad oedd Tomos yn edrych ymlaen at Dydd Mercher?

Doedd Tomos ddim yn edrych ymlaen i fynd i ysgol oherwydd roedd ganddo brawf Saesneg i wneud. ✓

* Pam fod Tomos mor gyffrous o weld yr eira? Meddyliwch am 2 reswm.

Roedd Tomos yn gyffrous o weld yr eira oherwydd dydy o heb bwrw eira ers 1948 ac maen golygu bod dim rhaid iddo fynd i'r ysgol. ✓

Beth yw ystyr y frawddeg "Gallai weld drwy'r llenni mai dim ond dechrau ennill y dydd oedd y goleuni"?

Mae y frawddeg yn golygu fod ein dechrau dydd arall yn ysgol. ✓

Pa frawddeg sy'n awgrymu fod Tomos yn ofnus wedi iddo sylweddoli ei fod am ddisgyn i'r twll?

Y frawddeg Sy'n awgrymu fod Tomos yn ofnus yw 'Ceisiodd weiddi am help ond aeth ei eiriau'n hollol sownd yn' ei wddf. ✓✓

* Disgrifiwch gymeriad Tomos gan gopïo brawddegau o'r stori i gefnogi eich ateb.

Mae Tomos yn fachgen sydd yn hoffi eira yn fawr iawn oherwydd pryd edrychodd allan o'r ffenest roedd ei'n rhedeg rownd y tŷ yn gweiddi: "mae yna eira. MAM! DAD!" Bachgen swil yw Tomos oherwydd pryd cododd ef i fyny roedd ei'n teimlon eitha swil am y prawf saesneg. Hefyd roedd ei'n eitha swil pryd glaniodd yn yr ogof ac roedd ~~Pelot~~ Blog yn gofyn cwestiynau iddo, ac yn siarad gydag iddo.

Pa nodwedd arddull a ddefnyddir yn y frawddeg "Agorodd ei lygaid led y pen fel dwy soser teledu lloeren"? Ydy'r frawddeg yn effeithiol a pham?

Yn y frawddeg yna mae yna Cyffelybiaeth oherwydd maen dweud fel dwy soser teledu lloeren.

Beth yw ystyr y geiriau "Roedd ar dân eisiau gadael y ty"?

Ystyr y frawddeg hwnnw yw mae go iawn eisiau gadael y tŷ. ✓

Mae'r awdur yn hoff o ddefnyddio'r gair 'bendramwnwgl'. Ysgrifennwch frawddeg yn cynnwys y gair.

'Ar ôl sglaffio eu cinio yn awchus bu'r tri yn sledio i lawr Crib Gorddu a glanio'n ben dramwnwgl ✓ yn yr eira gwyn'.

Beth yw ystyr "Gwên wag" yn y frawddeg '...nid **gwên wag** oedd gwen y Globiaid'?

Mae Gwên Wag yn golygu bod Tomos yn meddwl maen gallu ~~ystuned~~ ymddiried ynddyn nhw, felly maen o ~~golygu~~ golygu nid Person cas a chreulon ydy'r Blog.

*Ydych chi'n credu fod teitl y stori'n un addas? Os fyddai'n rhaid i chi feddwl am deitl arall i'r stori, beth fyddai'r teitl hwnnw?

~~Byddwn i~~ Buddai i yn newid teitl y stori i Dirgelwch yn yr Eira. ✓✓

Pam?

Disgrifiwch Blog yn eich geiriau eich hun.

Mae Blog ~~yn~~ wedi byw yn Allt y Crib ers canrifoedd. Mae Blog yn Caredig ~~[illegible]~~ oherwydd maen dweud 'Roedd rhywbeth annwyl iawn amdanynt.' ~~R~~ Hefyd roedd Blog yn gallu symud yn gyflym iawn.

Eglurwch beth oedd problem y Globiaid.

Problem y Globiaid oedd y Swcadl. Roedden nhw yn bygwth Cymryd yr ogof. Roedd y Globiaid wedi gofyn am help Tomos ac dyna pam roedd ef wedi glanio yn yr ogof ✓

Sut lwyddodd y Globiaid a Tomos i ddatrys y broblem?

Llwyddodd y Globiaid a Tomos i ddatrys y problem trwy cael ei het ac tynnu ac gwneud ffin gydag ~~etrferld~~ het Tomos. ✓

edafedd

* A oedd hon yn stori dda yn eich barn chi? Mae disgwyl i chi roi rhesymau manwl a chwilio am enghreifftiau o'r stori i gefnogi'ch barn.

Roeddwn i yn meddwl bod y stori yn dda oherwydd pryd dwedodd y stori bod y beichgyn yn mynd i adeilader ramp roeddwn i'n gwybod fod rhywbeth yn mynd i fynd yn anghywir gyda Tomos. Stori gyffrous roedd y stori Eira oherwydd roedd Tomos yn mynd i fyny y ramp ac roedd e'n gallu gweld twll ac dyna'r darn mwyaf cyffrous. Hefyd mae'r stori yn antu-rus oherwydd mae Tomos yn mynd ar rhyw fath o antur. ✓

* Pe baech chi'n gorfod gwella'r stori yma, sut fyddech chi'n gwneud hynny?

Bydda i yn gwella'r stori trwy gwneud y stori tipyn yn hirach oherwydd roeddwn i eisiau gwybod beth oedd yn digwydd y diwrnod nesaf gyda'r prawf Saesneg.

Chwiliwch am enghreifftiau o'r nodweddion arddull yma. (Gwnewch ymdrech i chwilio am enghreifftiau gwahanol i'r rhai sydd wedi cael eu cynnwys yn un o'r cwestiynau blaenorol.)

| Nodwedd arddull | Enghraifft | Pam ei fod yn effeithiol? |
|---|---|---|
| e.e. ansoddair | gwên <u>chwareus</u> | Mae'n awgrymu fod Rhodri'n teimlo'n ddireidus pan mae'n awgrymu ei fod am roi 'hwp' i Tomos ar y sled. |
| | | |
| **Idiom** | Roedd ar dân eisiau gadael y tŷ. | Mae'n dweud bod Tomos yn eisiau gadael y tŷ fawr iawn. |
| **Amrywio hyd brawddegau** | | Yn y frawddeg 'hwyl fawr' Mae'n esbonio fod y tri bechgyn yn cael hwyl fawr. |
| **Ansoddair** | ~~Cysglyd~~ fawr | ~~[illegible]~~ |
| **Cyffelybiaeth** | Rhedodd lawr y grisiau fel ~~[illegible]~~ milgi mewn rhas. | Mae'n dweud fod e wedi rhedeg lawr y grisiau yn gyflym. |
| **Adferf** | Cysglyd | Mae'n dweud fod y Tomos yn gysglyd iawn oherwydd roedd e wedi tynnu y flanced. |

# OGI! OGI! OGI!

**Edrychwch ar y tudalennau 'Dau Gae'** yn + c = yng

**1.a) Ble mae Stadiwm y Mileniwm?**

Mae Stadiwm y Mileniwm yn Canol Caerdydd.

**b) Faint o siopau sydd yn y Stadiwm?**

Mae yna 13 siop yn y stadiwm ✓

**c) Pryd agorodd Parc yr Arfau?**

Agorodd parc yr arfau yn 1970 ✓

**2. Rhestrwch 2 beth sydd yn ein helpu i ddod o hyd i wybodaeth am y 'Ddau Gae'.**

- Mae yna ~~[illegible]~~ cod lliw. ✓
- Mae yna is-benawdau. ~~yn~~ ✓

**3. Sut mae'r awdur wedi defnyddio lliw i'n helpu i ddeall y wybodaeth?**

Mae'r awdur wedi rhoi'r gwybodaeth am y stadiwm yn y coch am am y parc yn y gwyrdd. ✓

**4. Beth yw pwrpas y darn darllen 'Dau Gae'?**

Y pwrpas darn darllen Dau Gae yw ~~ermag~~ ermwyn dargangfod ffeithiau am y Stadiwm ar parc. ✓

**Darllenwch y stori 'Y Gêm'**

**1. Chwiliwch ar waelod tudalen 6. Disgrifiwch sut oedd Gwenno'n teimlo pan gollodd ei thad.**

Pan gollodd Gwenno ei thad roedd hi'n teimlo ofnus a bach yn euog am bod dad wedi ~~prynu'r~~ talu'r ~~llawer tocynnau~~ llawer am y tocynnau.

**2. Pa idiom sy'n cael ei ddefnyddio i ddangos bod Gwenno'n hapus iawn i gael y tocynnau (tudalen 4)?**

Yr idiom sydd yn cael ei defnyddio yw 'roedd wn ar ben fy nigon'.

**3. Nodwch 2 beth sy'n dangos bod Caerdydd yn brysur cyn y gêm? (tudalen 6)**

- mae'r strydoedd yn coch a gwyrdd
- Sŵn canu a chwerthin dros y lle.

**4. Rhowch y brawddegau isod yn y drefn maent yn digwydd yn y stori:**

a) **"Pyncjar," meddai'n flin**

b) **Ni welwn Dad yn unman**

c) **Rydw i wrth fy modd ar ddiwrnod gêm**

**1.** Rydw i wrth fy modd ar ddiwrnod y gêm **2.** Pyncjar meddai'n flin **3.** Ni welwn dad yn unman

**5. Chwiliwch am y pethau roedd Gwenno wedi eu mwynhau ac heb eu mwynhau ar ddiwrnod y gêm.**

| Mwynhau | Heb eu mwynhau |
|---|---|
| y teimlad o'r cam a chwarae ~~y sgarff yn y siop~~ | y pyncjar yn y car |
| y tocynnau yn dod / y tywydd dawns. | wedi colli dad |
| dad yn dod allan o'r siop gyda'r sgarff. | Iolo yn bod yn gas. |

**6. Pam oedd Iolo wedi gwneud i Gwenno "deimlo'n ffŵl"?**

Roedd Iolo wedi gwneud i Gwenno teimlo'n ffŵl oherwydd roedd Iolo'n dweud ~~bod~~ dylai merched ddim hoffi rygbi. Rydw i'n meddwl roedd Iolo'n genfigennus oherwydd doedd e ddim yn cael tocyn

6/1

## Y GERDD

**1. Am beth y mae'r gerdd yn sôn?**

Mae'r gerdd yn son am cic olaf y gêm.

**2. Sut mae'r ciciwr yn teimlo?**

Mae'r ciciwr yn teimlo nerfus oherwydd mae'n dibynnu arno fe.

**3. Beth ydych chi'n sylwi am batrwm odli y gerdd?**

Mae yna patrwm odli yn ~~y gerdd~~ y gerdd e.e. gilydd a llefydd.

**4. Sut mae'r dorf yn teimlo yn y bennill gyntaf? Sut mae hyn yn wahanol i sut maen nhw'n teimlo ar ddiwedd yr ail bennill? Cefnogwch eich barn gyda llinellau o'r gerdd.**

Mae'r cefnogwyr yn teimlo'n nerfus hefyd oherwydd dydyn nhw ddim yn gwybod os mae mynd i cael y cais ac maen dweud 'mae'r stand yn ddistaw'.

**5. Beth a olyga'r bardd wrth:**

**-.......mae'r dyrfa dew....**

Ystyr 'mae'r dyrfa dew' yw llawer iawn o pobl yn dawel.

**-.......ac ennill y gêm i'w bobl**

Ystyr hyn yw os maen cael y cic bydd e'n ennill y gêm i pawb sydd yn cefnogi e.

**-.......Fe wêl y bêl yn hollti'r pyst...**

Maen golygu bod chi'n gallu gweld y pêl yn saethu trwy'r awyr.

**6. Rhowch ddau reswm pam y mae'r llinell olaf yn ffordd dda o orffen y gerdd.**

Maer llinell olaf yn Ffordd dda o orffen y gerdd oherwydd maen dweud fod e wedi ennill y gêm ac wedyn mae'r dwi'n bwyn yn mynd.

**7. P'un yw'r gorau gennych, y stori neu'r gerdd?**

**Rhowch resymau dros eich ateb.**

Fy hoff un ywr stori oherwydd maen stori dda ac anturus. Fy hoff rhan or stori yw ~~prid~~ pryd mae dad yn mynd ar goll [illegible] o ganlyniad, roedd e'n cyffrous ac doeddwn i ddim yn gwybod os oedd Gwenno yn mynd i ffeindio'i dad neu ~~dda~~ ddim. Wedyn, daeth dad ~~ano~~ allan o'r siop gyda'r un sgarff roedd Gwenno eisiau. Fy hoff gymeriad oedd Gwenno oherwydd roedd hi'n cefnogi Cymru ac rydw i'n cefnogi Cymru hefyd. Doeddwn i ddim yn hoffi Iolo oherwydd roedd e'n gas

Dydd Mercher y 7fed o Ionawr 201

Amcan: Adnabod y gwahaniaeth rhwng ffeithiau, barn a thuedd.

- **Barn**
- **Ffaith**
- **tuedd**

- Yn fy marn ~~marn~~ i, rydych yn defnyddio gormod o defnyddiau i becynnu eich bwydydd ac mae hyn yn arwain a gostau uwch ynogystal a bod yn niweidiol i'r amgylchedd.
- Eich dadl chi yw fod angen y pecynnau enfawr yma er mwyn diogelu'r bwydydd sydd yn teithio o wledydd tramor ond beth sydd o'i le ar fwydydd lleol yn y lle cyntaf
- Eich pecynnau chi yw bron i chwarter o'r holl wastraff a gynhyrchi'r yn ein cartrefi ac mae ystadegau'n dangos fod rhwng 35% a 40% o'r sbwriel sydd yn mynd i ganolfannau gwastraff wedi eu prynu mewn archfarchnadoedd
- Yn fy marn i gwneud y bwydydd yn fwy deniadol yw'r prif reswm dros defnyddio'r holl defnyddiau wrth becynnu bwyd. Rydych yn credu bod angen yr ~~bocs~~ ~~holl gardfordd~~ plastig dros y bwyd i wneud iddo edrych yn ddeniadol ac mae angen yr holl gardfordd lliogar sydd yn ei amgylchynu er mwyn denu llygaid y siopwyr wrth iddynt grwydro o amgylch.
- Dangosodd astudiaeth ddiweddar nad oes lleihad wedi bod yn y

gwastraff a gynhyrchir gan becynnau o archfarchnadoedd ers 2006. Profwyd hefyd nad oes modd ail-gylchu tua 60% o'r pecynnau a ddefnyddir i werthu'r bwyd.

- Roeddwn yn arfer gweithio mewn archfarchnad fy hun ond cefais y sac am gwyno am sut oedd y bwyd yn cael ei becynnu! Rydw i'n credu y dylai pobl fynd i brynu eu bwyd mewn siopau llai neu farchnadoedd yn hytrach nag archfarchnadoedd mawr bondigrybwyll!
- Credaf y dylai'r llywodraeth gyflwyno deddf fydd yn cosbi siopau sydd yn defnyddio gormod o becynnu oherwydd mae angen i chithau hefyd wneud eich rhan i amddiffyn yr amgylchedd.

Pam fod hwn yn enghraifft o dueddd?

Caerffili.
12fed o Ragfyr, 2014.

Annwyl Syr/Madam,

Rwyf yn ysgrifennu atoch gan fy mod yn pryderu am sut mae eich siop ac archfarchnadoedd eraill yn pecynnu eich bwyd.

Yn fy marn i, rydych yn defnyddio gormod o ddefnyddiau i becynnu eich bwydydd ac mae hyn yn arwain at gostau uwch yn ogystal a bod yn niweidiol i'r amgylchedd.

Eich dadl chi yw fod angen y pecynnau enfawr yma er mwyn diogelu'r bwydydd sydd yn teithio o wledydd tramor ond beth sydd o'i le ar fwydydd lleol yn y lle cyntaf? Eich pecynnau chi yw bron i chwarter o'r holl wastraff a gynhyrchir yn ein cartrefi ac mae ystadegau'n dangos fod rhwng 35% a 40% o'r sbwriel sydd yn mynd i ganolfannau gwastraff wedi eu prynu mewn archfarchnadoedd!

Yn fy marn i, gwneud y bwydydd yn fwy deniadol yw'r prif reswm dros ddefnyddio'r holl ddefnyddiau wrth becynnu bwyd. Rydych yn credu fod angen y plastig dros y bwyd i wneud iddo edrych yn ddeniadol ac mae angen yr holl gardfwrdd lliwgar sydd yn ei amgylchynu er mwyn denu llygaid y siopwyr wrth iddynt grwydro o amgylch.

Dangosodd astudiaeth ddiweddar nad oes lleihad wedi bod yn y gwastraff a gynhyrchir gan becynnau o archfarchnadoedd ers 2006. Profwyd hefyd nad oes modd ail-gylchu tua 40% o'r pecynnau a ddefnyddir i werthu'r bwyd.

Roeddwn yn arfer gweithio mewn archfarchnad fy hun ond cefais y sac am gwyno am sut oedd y bwyd yn cael ei becynnu! Rydw i'n credu y dylai pobl fynd i brynu eu bwyd mewn siopau llai neu farchnadoedd yn hytrach nag archfarchnadoedd mawr bondigrybwyll!

Credaf y dylai'r llywodraeth gyflwyno deddf fydd yn cosbi siopau sydd yn defnyddio gormod o becynnu oherwydd mae angen i chithau hefyd wneud eich rhan i amddiffyn yr amgylchedd.

Yn gywir,

Huw Thomas

Archfarchnad Nantgarw,
Parc Excelsior,
Caerffili.
17eg o Ragfyr, 2014.

Annwyl Mr. Thomas,

Diolch am eich llythyr diweddar ynglŷn â'n defnydd o becynnu ac rydym yn gwerthfawrogi eich sylwadau.

Nid yw gwneud y bwyd yn fwy deniadol i siopwyr yn ffactor hollbwysig pan ydym yn pecynnu ein bwydydd. Y prif ffactor yw sicrhau fod y bwydydd yn cael eu pecynnu mewn ffordd fydd yn galluogi'r siopwr i gludo'r bwyd adref yn ddiogel.

Mae bwyd sydd wedi cael ei becynnu'n dda yn parau hirach ac yn fwy diogel i'w fwyta. Does neb yn cwyno fod wyau yn cael eu pecynnu mewn bocs. Felly pam cwyno pan fo orennau mewn rhwyd blastig er mwyn eu cadw gyda'i gilydd neu fara mewn bag plastig er mwyn sicrhau nad ydy siopwyr yn byseddu'r dorth ac yna'n ei adael ar y silff!

Mae pecynnu bwyd yn costio arian a gallaf sicrhau na fyddem yn defnyddio dim mwy o blastig na chardfwrdd nag sydd yn angenrheidiol.

Mae ein harchfarchnad ni wedi ennill gwobrau am 'fod yn wyrdd' ac rydym yn sicrhau fod unrhyw wastraff a gynhyrchir gennym yn cael ei ail-gylchu.

Rydym yn credu'n gryf mai'r rheswm pennaf am y ffigyrau siomedig y cyfeirioch atyn nhw yw anallu'r Cyngor Sir i gyflwyno system effeithiol sydd yn galluogi teuluoedd i ail-gylchu eu gwastraff yn hawdd ac yn ddi-drafferth. Mae'r archfarchnadoedd yn cyfrannu £5 biliwn o bunnoedd y flwyddyn tuag at gostau'r Cyngor ac rydym yn credu'n gryf y dylai fod yr arian hwnnw'n cael ei ddefnyddio i ddatblygu eu gwasanaeth ail-gylchu.

Yr eiddoch yn gywir,

Siwan Lewis
Rheolwraig yr Archfarchnad

Ysgrifennu Llythyr Ffurfiol yn Mynegi Barn am Fferm Wynt.

Spplat
G.A.C.A
Cynnwys feithiau
i gefnogi eich barn
Llythyr wedi cael ei
osod yn gywir
Cwestiwn rhethregol.

Dydd Gwener, Ionawr 9fed, 2015

Roath,
Cardiff.

9.1.15

Y Cyng. Huw Hughes,
Neuadd y Sir,
Glanfair Iwerydd,
Caerdydd.

Annwyl Syr,
Ysgrifennaf atoch i gwyno am y cynllun o rhoi fferm wynt ym Mae Caerdydd. Mae Bae ~~Caer~~ Caerdydd yn lle hyfryd i chwarae, ar ben hynny maen lle i fynd am dro. Felly, os byddech chi yn mynd i Fae Caerdydd gyda fferm wynt yna, bydd llawer o gysgodion ac bydd y bae yn ~~tywyd~~ dywyll i gyd. Hefyd, bydd angen 1,500 o ~~dyb~~ dyrbinau ar draws Caerdydd i gyd i gynhyrchu cymaint o ynni ag 1 orsaf bŵer, felly dydw i ddim yn meddwl bod hyn yn syniad da.
Synnais glywed fod yna rhywbe

yn mynd ymlaen o'r enw Wind Farm Syndrome' sydd yn gwneud pobl yn fyddar trwy clywed yr un sŵn o melynau gwynt yn ~~troi~~ troi a troi. Ydych chi yn meddwl bod hyn yn neis iawn? Mae melynau gwynt yn gallu bod yn hynod o beryglus o ganlyniad os ~~mae'r~~ yw'r gwynt yn mynd yn rhy gyflym bydd y tyrbin yn mynd ar ~~dan~~ dân. Meddyliwch sut byddech chi'n teimlo os bydd~~et~~ech ~~ti~~ chi yn byw yn y bae ac miloedd a filoedd o melynau gwy tu allan i dy tŷ? Pam ~~dydw~~ ~~dw~~ dydych chi methu rhoi nhw yn bell yn y dŵr? Mae yna fwr môr yna! Os oes dim gwynt bydd y tyrbini yn defnyddio tanwydd ffosil i droi ac felly maen nhw'n niweidio'r amgylchedd

~~Rwyt~~ Rwyn gobeithio bod ~~ti'n~~ chi'n gwrando ar y llythyr ac dwi'n edrych y mlaen i glywed nol ~~ohonot ti~~ gennych chi.

Yr eiddoch yn gywir,
~~Gi~~
Giri

* Defnydd ardderchog o gysyllteiriau ac agoriadau diddorol.
* Rwyt wedi cynnwys nifer o resymau a chwestiynau rhethregol i gefnogi dy farn.
\+ Mae angen cynnwys mwy o ffeithiau i gefnogi dy farn.
\+ Mewn llythyr ffurfiol fel yma, fe ddylet ti ddefnyddio 'chi' wrth gyfeirio at y person yr wyt yn ysgrifennu ato.

Dydd Mercher yr 21 o Ionawr 20

Ymson: 'Ar y brig'

O na! Beth ydw i wedi gwneud? Mae mam a dad wedi mynd allan a dwedon nhw i beidio gwneu rhywbeth peryglus. Teimlaf yn ofnus iawn ac mae fy nghalon yn curo fel drwm. Mae'n noson dywyll ac ~~fe~~ rydw i'n sownd ar dop coeden. Beth yn y byd allaf wneu Tybed a ddylwn i alw am help, neu trio ddod i lawr fy hun. Iaw rydw i wedi penderfynu trio ddo i lawr fy hun.

Na fedrai ddim gwneud ~~hon~~ hyn. O na! Pam ydw i wedi gwneud rhywbeth ddylwn i heb fod wedi'i fod wneud? Roeddwn i'n meddwl roedd en mynd i fod yn ddiwrnod i'r brenin yfory oherw mae'n parti fy ffrind ~~gorau~~ gor ~~Ond os~~ Fodd bynnag, os ydw i f fan hyn ~~p~~ trwy'r nos, bydda i'n rhy flinedig i fynd i'r parti. Na. Dwi newydd gofio am dad. Sut fydd en ymateb a fi yn fan hyn? ~~Mam~~ Mae'n siwr o fod yn amser dod adref erbyn hyn.

Reit te dwi angen meddwl am rhywbeth yn gyflym. A ha! ~~fy~~ Fy ffôn, gallaf ffonio ~~rhywun~~ rhyw i ddod i helpu, Ond... ond dydw i ddim eisiau symud. Aw Mae fy nwylon boenus dros ben.
GP1 Rydw i wedi *dechrae teimlo'n ofnus. O na! Dwi wedi dechrau poeni

am mam a dad nawr,
lle maen nhw? Rydw i'n teimlo
mor ofnus, mae fel ~~bod~~ fy petawn mod
i mewn rhyfel, ~~dwi mor ofnus.~~
neu mewn ogof dywyll ar ben
fy hyn.
Na, beth oedd y sŵn
yna. Gobeithio ddim drws y tŷ.
"Helo, helo. Oes unrhyw un yna?"
Na, mam yw e. Be wnai?
Dwi'n gwybod, dwi'n mynd i
aros fyny fan hyn trwyr nos
tan bod mam yn ffeindio fi.
Ond beth os rydw i'n cwympo
i gysgu ac yn cwympo allan
o'r goeden.
"Dyna ti! Pam wyt ti fyny yn
fana?"
"Oherwydd roeddwn i eisiau
rhywbeth i wneud pryd roeddet ~~roedd~~ ti
a dad allan. Ble mae dad?"
"Wel roedd e eisiau aros mewn y
tafarn, ~~ond~~ fodd bynnag roeddwn
i'n rhy flinedig. Nawr tyrd lawr
o fana."
"Ond mam dwi ddim yn gallu!"
Fe "Wnaf i dynnu ~~ti~~ ti:
"Diolch Mam!"
O'r diwedd! rydw i lawr!
GP1 dechrau, dechrau, dechrau, dechrau.
* Rwyt wedi defnyddio cysyllteiriau fel agoriadau.
* Cynnwys ebychiadau a chwestiynau rhethregol (Cofia'r marc cwestiwn!)
+ Gwna ymdrech i gynnwys mwy o ansoddeiriau, idiomau, cyffelybiaethau a thrasiadau.

Dydd Mawrth y 24ain o Chwefror 2015.

Amcan: ymateb i fywgraffiadur Capten Harri Morgan.

gadawodd e'i gartref ym Llencarn, Gwent am fywyd anturus yn y môr.

Aeth gyda'r môr ladron i ymosod ar longau Sbaen a dwyn eu trysorau nhw

erbyn hyn roedd e'n yfed yn drwm iawn hefyd

Bu farw Harri Morgan yn 1688 ar dropsi

1635 1652 1659 1663 1668 1669 1671 1688 1692

Ganwyd Harri Morgan yn Llanrhymni

Yn fuan wedi iddo ddod yn rhydd, teithiodd i Jamaica ac yno cwrddodd â chriw o fôr-ladron

Casglodd Harri ddeg o longau a thua phum cant o ddynion

Roedd e wedi casglu miliwn o ddarnau aur

Ar y 7fed o Fehefin 1692, bu daeargryn cryf a llusgwyd Mynwent Port Royal i'r môr gan don anferth.

... a gweddillion Harri hefyd.

24/2 ✓

# Harri Morgan (tua 1635-1688)



Un o'r môr-ladron mwyaf enwog yn y byd oedd Harri Morgan ac mae ei ddylanwad yn dal i fod i'w weld yn niwylliant poblogaidd hyd heddiw. Ganwyd Harri Morgan yn Llanrhymni, Sir Fynwy, yn tua 1635. Tra'n blentyn, bu'n byw yn Neuadd Llanrhymni am gyfnod oherwydd roedd ei deulu yn gefnog iawn. Serch hynny, gadawodd ei gartref ym Mhencarn, Gwent, yn un deg saith oed am fywyd anturus ar y môr.

I ddechrau, aeth i borthladd Bryste cyn hwylio i India'r Gorllewin. Maes o law, cyrhaeddodd Barbados, ond yno gwerthodd y capten ef fel caethwas i weithio ar blanhigfa siwgr. Oherwydd hynny, bu'n gweithio yno am saith mlynedd.

Yn fuan wedi iddo ddod yn rhydd, teithiodd i Jamaica, ac yno cwrddodd â chriw o fôr-ladron, ac o fewn dim o dro daeth yn fôr-leidr ei hun. Aeth gyda'r môr-ladron i ymosod ar longau Sbaen a dwyn eu trysorau nhw. Cyn pen dim, roedd digon o arian ganddo i brynu llong, ac o ganlyniad fe aeth ati i gasglu ei griw ei hun. Ef oedd y capten nawr; i ffwrdd ag ef i'r môr gyda'i griw gwyllt, di-ofn i ymosod, ysbeilio, lladd ac i ddinistrio llongau Sbaen. Er hynny, doedd un llong ddim yn ddigon i Harri - aeth yn gapten ar longau Edward Mansfield ac wedi i'r hen fôr-leidr hwnnw farw aeth yn 'llyngesydd' (*admiral*) yn ei le. Nesaf, aeth Harri ati i ymosod ar drefi cyfoethocaf y Sbaenwyr yn America oherwydd roedd digon o aur ac arian yn y trefi yma a nifer o drysorau gwerthfawr.

Ym 1668, casglodd Harri ddeg o longau a thua phum cant o ddynion a hwyliodd i Porto Bello, un o drefi cyfoethocaf y Sbaenwyr yn y Caribî. Yno, bu ymladd ffyrnig, ofnadwy. O'r diwedd, fe lwyddodd Harri a'i ddynion i ennill y ddau gastell. Lladdodd lawer iawn o'r bobl, a dwyn yr holl drysorau oddi yno. Fodd bynnag, byddai Harri pob tro'n sicrhau mai Brenin Lloegr oedd yn cael y trysorau; byddai Morgan yn derbyn cyfran ohono yn wobr am ei orchestion.

Rhai blynyddoedd yn ddiweddarach, daeth camp fwyaf Capten Morgan - sef croesi Penrhyn Panama i ymosod ar y ddinas o'r un enw gyda mil o filwyr a morwyr ar droed.

Roedd 2,400 o filwyr Sbaenaidd yn disgwyl amdanynt yn Ninas Panama ac, wedi hir ymaros, ymosododd Morgan ar 21 Ionawr 1671. Yn fuan wedi hynny, cipiwyd y ddinas gyda'r Cymro'n colli dim ond pump o'i ddynion tra bod y gelyn wedi colli 400 o'u dynion hwy. Unwaith eto, wedi iddo gyrraedd yn ôl i Port Royal, derbyniodd Morgan ganran o'r ysbail, sef tua 7,500 darn o aur.

Tair wythnos wedi ei orchest enwocaf, cafodd ei gyhuddo o ymosod ar longau Sbaen oherwydd fod cyfnod o heddwch wedi cael ei gyhoeddi rhwng Sbaen a Lloegr. Cafodd ei anfon i Lundain i sefyll ei brawf a thaflwyd ef i garchar. Yn y pendraw, cafodd ei ryddhau a'i wneud yn farchog gan y Brenin Siarl II (oherwydd roedd llwyddiant Harri wedi golygu cyfoeth mawr i'r Brenin!). Nawr Syr Harri Morgan oedd ef. Anfonwyd ef yn ôl i Jamaica i fod yn rheolwr ar yr ynys.

Erbyn diwedd ei oes, credir fod Morgan wedi casglu cynifer â miliwn o ddarnau aur, a hynny'n bennaf rhwng 1669 a 1671. Er hynny, roedd wedi gwario cymaint fel iddo fynd i ddyled. Erbyn hyn, roedd yn yfed yn drwm iawn hefyd. Enwyd diod rym enwog ar ei ôl, gyda'i lun yn ymddangos ar y label.

Bu farw Harri Morgan yn 1688 o'r dropsi - neu oedema - a gormod o alcohol. Yn ei angladd taniwyd pob gwn yn yr harbwr yn deyrnged iddo wrth i fôr-leidr enwoca'r byd gael ei gladdu ar dir sych – a hynny er mai'r gred oedd y dylai fod môr-ladron yn cael eu claddu dan y tonnau.

Ond, roedd un taith olaf yn wynebu Harri Morgan. Ar y 7fed o Fehefin 1692, bu daeargryn cryf a llusgwyd mynwent Port Royal i'r môr gan don anferth - enghraifft gynnar o tsunami, mae'n debyg. Llusgwyd gweddillion Harri Morgan i'r môr - diweddglo perffaith i un a fu'n teyrnasu'r tonnau am flynyddoedd.

Mae ei ddylanwad i'w weld o hyd. Yn wir, credir mai ef yw ysbrydoliaeth cymeriad ffuglennol Capten Jack Sparrow yn ffilmiau hynod boblogaidd Disney, 'Pirates of the Carribean'. Hefyd, ym mis Awst 2011, cred Archaeolegwyr o Brifysgol Texas State eu bod wedi darganfod gweddillion o un o longau Harri a suddodd ger y safle yn 1671. Roedd e ar ei ffordd i ddinas Panama gyda'i ddynion. Dywed yr archaeolegwyr eu bod wedi darganfod rhan o'r llong a blychau cargo a chistiau'r môr-ladron.

Dydd Mercher y 25ain o Chwefror 2015

Amcan: dod o hyd i gysyllteiriau amserol mewn bywgraffiadur.

| Agoriadau | Cysyllteiriau amserol | Cysyllteiriau eiriau |
|---|---|---|
| | Tra'n blentyn,... | Serch hynny |
| | Maes o law,... | Oherwydd hynny |
| | Yn fuan wedi,... | Er hynny |
| | Cyn pen dim | Fodd Bynnag |
| | Nesaf | Ond |
| | Ym 1668 | Hefyd. |
| | I ddechrau,... | |
| | O'r diwedd,... | |
| | Rhai blynyddoedd yn ddiweddarach,... | |
| | tair wythnos wedi,... | |
| | Yn y pendraw,.. | |

Bywgraffiadur John Lennon. Uwch-Lefelu.

Ar y 9fed o Hydref, 1940 Ganwyd John Winston Lennon yn Ysbyty Plant Lerpwl. Gwahanodd ei rieni, Alfred a Julia Lennon erbyn 1946. ~~AH~~ Aeth John i fyw ~~gai~~ gyda'i Fam a'i phartner newydd, John 'Bobby' Dykins. Rhai blynyddoedd yn ddiweddarach, aeth i fyw gyda'i fodryb, Mimi Smith, a'i gŵr George, i'w cartref o'r enw 'Mendips' ar Menlove Avenue yn Woolton, ardal o fewn Lerpwl. Mynychodd Ysgol Gynradd ~~Dovedale~~ Dovedale ac yna, o fis Medi 1952 ymlaen, Ysgol Uwchradd Quarry Bank. Wedi iddo adael yr ysgol, aeth i astudio yng Nghholeg Celf Lerpwl. Wedi llawer o swnian ~~John~~ John y byddai'n cytunodd mam i'w gitâr iddo.

# Agoriadau

| Berfau Cryno | Cysyllteiriau amserol |
| --- | --- |
| Ganwyd | Erbyn 1946 |
| Aeth | ~~Cyr~~ Cyn hir |
| Mynychodd | Ym mis Gorffenaf. |

## Dydd Llun yr 2il o Fawrth 2015.

Amcan: casglu gwybodaeth am fywyd Ray Gravell

Bywyd Cynnar ac addysg

- 1951, wedi ei eni.
- Yng Nghydweli.
- byw yn Mynydd-y-garreg
- Jack - enw ei thad.
- Ysgol Gynradd Porth Tywyn
- Ysgol Ramadeg Caerfyrddin
- Cefnogi Llanelli.
- 1965 Bu farw ei dad - ~~Ss~~ lladd ei hun.
- Gyrfa rygbi
- Canolwr
- Cyflym ac yn gryf.
- 1970 - gêm gyntaf dros Lanelli
- 1972 - Llanelli 9 Seland Newydd 3.
- 8fed o Ionawr 1975 gêm cyntaf Cymru yn erbyn Ffrainc.
- ennill ei gap cyntaf.
- Cyn y gêm teimlo'n hapus am ei d
- 1980 - taith y Llewod i De Affrica.
- 1985 - bron 500 o gemau i Lanelli

gafodd ei wneud yn lywydd club
Llanelli:
- 1985 - wedi ymddeol

## Actio a chyflwyno

- actio yn 'Up 'n' Under', 'Owain Glyndŵr'
- 'Rebecca's Daughters' - peter o'~~toole~~ toole'
- Cyflwyno ar 'Radio Wales a 'Radio
Cymru
- Sylwebydd. ✓

## Bywyd Personol

- Byw ~~yn~~ ar stryd - Heol 'Ray Gravell'
- wedi priodi yn 1991 - Mari
- Anrheg i ei wraig oedd ~~tocyn~~ tocyn tymor 10 mlynedd i weld Llanelli
- Cafodd plant - Manon a ~~Gwennan~~ Gwenan
- 'West is Best' - dywediad.
- gêm yw rygbi, bywyd yw teulu. ✓

- Cyffrous
- methu reoli ei deimladau

## Ei gymeriad

- person emosiynol
- Cyn gemau roedd e'n bod yn sal, sgrechian, cloi ei hun yn y ty bach ac ~~bang~~ bangio'r drysau, crio.
- wedi pwnio chwaraewr Ffrainc
- ansicr.
